

amserbeibl

Gwersi o'r Beibl – Safon 4

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran _____ Dyddiad geni _____

Enw _____

Cyfeiriad _____

Enw Arweinydd y Dosbarth _____

Astudiaethau Beiblaidd am y Nadolig

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th



DARLLENWCH

Genesis 3: 1-24

Eseia 7: 14-16



ADNOD ALLWEDDOL

Eseia 7: 14

Astudiaeth I Geni Crist – Rhoi Addewidion



Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

Rhufeiniaid 5: 12-21 | I Corinthiaid 15: 20-22 | Timotheus 2: 13 a 14


Awr enbyd o dywyll oedd honno pan chwalodd pechod y berthynas rhwng dyn a Duw! Eto, bryd hynny hyd yn oed, roedd addewid Duw o Waredwr yn disgleirio fel seren lachar, gan gynnig gobaith – hyd yn oed i ni!

C Tanlinellwch yr ateb cywir ym mhob set o gromfachau.

(SARFF / SEBRA / SIPSI) demtiodd (ADDA / EFA) gyntaf i anufuddhau i Dduw yng ngardd (EDOM / EDEN / ESAU).

Gofynnodd Duw i'r wraig beth oedd hi wedi ei wneud.

C Beth oedd ei hateb?



Defnyddiwyd dichell, celwydd ac amheuon gan Satan, a ymddangosodd ar lun sarff, er mwyn peri i Adda ac Efa bechu. Dewisodd y ddau anufuddhau yn hytrach nag ufuddhau a boddhau Duw. Yr anufudd-dod hwn oedd PECHOD CYNTAF dynoliaeth.

C Darllenwch ac ysgrifennwch Rhufeiniaid 5: 12 er mwyn canfod canlyniadau ofnadwy eu pechod.

Eto, ar y diwrnod trist iawn hwn yn hanes dynoliaeth, pan gafodd y ddau eu gwahanu oddi wrth Dduw oherwydd eu pechod (Gweler 3: 24), rhoddodd Duw, o'i gariad anhraethol, yr ADDEWID GYNTAF o Waredwr. Byddai Hwnnw yn adfer y berthynas rhwng dyn a Duw.

3

1

2

C Darllenwch adnod 15 a llanwch y bylchau â'r geiriau priodol.

Wrth i Dduw gyhoeddi barn ar y sarff, dywedodd, "Gosodaf hefyd rhyngot ti a'r wraig, a rhwng dy di a'i hithau; bydd ef yn dy di, a thithau'ni sawdl ef."

Roedd Duw yn addo y câ'r Arglwydd Iesu Ei eni un diwrnod ac y byddai Ef yn rhoi 'eryd farwol' i Satan. Byddai Ef yn darparu iachawdwriaeth i'r rhai sydd wedi eu caethiwo gan bechod.



C Ysgrifennwch rif cywir yr adnod i gyfateb â phob un o addewidion Duw:-

Adnod
Adnod
Adnod

wrth y sarff: "Byddi'n bwyta llwch holl ddyddiau dy fywyd."

wrth Efa: "Mewn poen y byddi'n geni plant"

wrth Adda: "Drwy chwys dy wyneb y byddi'n bwyta."

C Ym mha ffordd hefyd y mellithiwyd y ddaear oherwydd bod y drws wedi ei agor i bechod?

Flynnyddoedd yn ddiweddarach, rhoddodd Duw addewid arall, drwy Ei was, y proffwyd Eseia. (Gweler Eseia 7)

C Beth oedd yr arwydd arbennig hwn y soniodd Eseia amdano?

C Beth fyddai Ei enw Ef?

Ei ystyr yw 'Duw gyda ni'.



Roedd hwn, yn wir, yn arwydd rhyfeddol. Does dim byd tebyg wedi digwydd erioed o'r blaen, na chynt nac wedyn! Pan ddigwyddodd hyn, dylai pobl fod wedi sylweddoli fod Duw wrthi yn cadw Ei addewidion.

Roedd genedigaeth Crist yn ddigwyddiad pwysig iawn yn hanes y byd! Roedd y digwyddiad hwn – dyfodiad Ei Fab yn Waredwr y byd – yn un yr oedd Duw wedi ei gynllunio, ei ragfynegi a'i reoli mewn ffordd wyrthiol

C Ysgrifennwch GWIR neu ANWIR wrth ymyl y datganiadau canlynol:-

- Efa oedd yr unig un i bechu.
- Rydym yn marw oherwydd ein bod yn bechaduriaid.
- Roedd gwyruf yn beichiogi ac yn geni mab yn arwydd gwyrthiol.
- Byddai'r Gwaredwr yn dinistrio Satan a'i holl weithredoedd.
- Daw addewidion Duw yn wir bob tro.

